



fertilitynetworkuk

Mae triniaeth IVF llwyddiannus yn golygu cael un babi iach

Nod pob triniaeth ffrwythlondeb yw arwain at enedigaeth babi iach a'r risgiau lleiaf posibl i'r fam. I nifer o fenywod, gellir cyflawni hyn drwy drosglwyddo un embryo ac am y rheswm hwn efallai y byddwch yn cael eich cyngori i drosglwyddo embryo sengl yn unig. Bydd staff y clinig yn asesu eich addasrwydd ar gyfer hyn yn seiliedig ar eich oed, a ydych wedi cael unrhyw driniaethau IVF yn y gorffennol ac ansawdd eich embryonau. Mae pob achos yn cael ei asesu'n unigol gan y bydd staff eich clinig eisiau sicrhau bod gennych y cyfle gorau posibl i feichiogi'n llwyddiannus a chael babi iach.

Gall cael gefeilliaid neu dripledi ymddangos yn ganlyniad perffaith pan fyddwch yn cael triniaeth ffrwythlondeb, ond beichiogrwydd lluosog sy'n achosi'r risg fwyaf i iechyd babanod sy'n cael eu cenhedlu drwy IVF. Mae un o bob deuddeg beichiogrwydd gyda gefeilliaid yn arwain at farwolaeth un babi neu at un babi'n cael ei eni gydag anabledd sylweddol. Bydd trosglwyddo embryo sengl yn golygu bod y risg y bydd hyn yn digwydd i chi'n lleihau'n sylweddol.

Credir weithiau y gall trosglwyddo embryo sengl leihau'r siawns o fod yn llwyddiannus; mewn gwirionedd nid yw trosglwyddo dau embryo yn dyblu eich siawns o lwyddo, ond mae'n cynyddu eich siawns o feichiogrwydd lluosog ynghyd â'r holl risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hynny. I sicrhau eich bod yn cael y cyngor gorau, bydd yr embryolegydd yn asesu ansawdd eich embryo cyn ei drosglwyddo. Bydd yr embryo o'r ansawdd gorau'n cael ei drosglwyddo a gellir rhewi a storio unrhyw embryonau eraill o ansawdd da i'w defnyddio yn y dyfodol.

Chwalu'r mythau ynglŷn â throsglwyddo embryo sengl

Dyma rai camsyniadau cyffredin ynglŷn â throsglwyddo embryo sengl a'r hyn y mae'n ei olygu:-

Rwy'n ffit ac yn iach ac felly'n barod i gymryd y risg o gael gefeilliaid

Nid yw bod yn ffit ac yn iach yn golygu y byddwch yn osgoi cymhlethodau gyda beichiogrwydd lluosog, gan fod y rhan fwyaf o'r rhain yn gysylltiedig â babanod yn cael eu geni'n gynnar.

Nid oes neb eisiau mentro niweidio ei blentyn ei hun os gellir osgoi hynny.

Rwy'n adnabod nifer o efeilliaid iach ac rwy'n credu bod y risgiau'n cael eu goriwio

Mae nifer o efeilliaid yn iach, ond yn anffodus mae llawer o rai eraill sydd ddim. Os byddwch yn beichiogi'n naturiol, dim ond 1 o bob 80 sy'n feichiogrwydd lluosog, ond os byddwch yn beichiogi ar ôl cael triniaeth IVF, mae 1 o bob 6 yn feichiogrwydd lluosog. Mae hyn yn golygu bod y risgiau o gael problemau yn ystod beichiogrwydd, comesgoriad, anabledd a marwolaeth yn annerbyniol o uchel. Mae'n bosibl lleihau cyfradd genedigaethau lluosog yn ogystal â sicrhau cyfle da iawn o gael babi byw iach.

Pam mae cleifion IVF yn cael cynnig trosglwyddo embryo sengl?

Bydd trosglwyddo embryo sengl yn rhoi'r cyfle gorau i nifer o bobl feichiogi'n llwyddiannus a chael beichiogrwyd iach, ond ni chaiff ei argymhell ar gyfer pob claf IVF. Dylai'r penderfyniad gael ei wneud ar sail unigol. Bydd gan glinig da ble mae cleifion yn cael eu hasesu'n unigol ar gyfer eu haddasrwydd gyfraddau llwyddiant da ar gyfer trosglwyddo embryo sengl.

Nid yw'n ymwneud ag arbed arian ar ofalu am fabanod sydd wedi cael eu geni'n gynnar - mae'n ymwneud ag achub bywydau. Derbynnir babanod i unedau gofal newydd-anedig arbenigol oherwydd bod ganddynt gymhlethodau difrifol. Caiff hanner yr holl efeilliaid eu geni'n gynnar ac mae ganddynt bwysau geni isel, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod angen cymorth meddygol arbenigol. Gall babanod sy'n cael eu geni'n gynnar fod angen gofal newydd-anedig arbenigol oherwydd bod risgiau o niwed i'r ymennydd drwy ddiffyg ocsigen neu waedu ar yr ymennydd a gall

hyn arwain at effeithiau hirdymor fel epilepsi, parlys yr ymennydd ac anabledd dysgu sylweddol. Nod trosglwyddo embryo sengl yw cynyddu'r nifer o fabanod IVF iach.

Byddai'n well gennyf gael efeilliaid na dim babi o gwbl

Bydd ansawdd eich embryonau yn dylanwadu ar eich siawns o feichiogi. Byddai unrhyw un sy'n beichiogi gyda gefeilliaid wedi beichiogi drwy drosglwyddo embryo sengl. Bydd eich clinig yn trafod trosglwyddo embryo sengl gyda chi a bydd yn gallu argymhell y camau gorau yn seiliedig ar eich sefyllfa unigol.

Yn ystod eich triniaeth, efallai y bydd cwestiynau yr hoffech eu gofyn i staff y clinig:-

- ▶ Beth yw eich cyfradd genedigaethau lluosog?
- ▶ Sut rydych yn penderfynu pwy sy'n addas ar gyfer trosglwyddo embryo sengl?
 - ▶ Beth fydddech chi'n ei argymhell i mi a pham?
 - ▶ Beth yw eich cyfradd llwyddiant ar gyfer trosglwyddo embryo sengl?
 - ▶ A fydddech yn gallu dweud wrthyf beth yw ansawdd fy embryonau?
- ▶ A allaf rew i unrhyw embryonau fydd ddim yn cael eu defnyddio yn fy nhriniaeth?
 - ▶ Beth os na fyddaf yn cytuno gyda'ch argymhellion?
 - ▶ Pa bryd y bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud?

I gael gwybodaeth fanwl am y risgiau i famau a babanod yn sgil beichiogrwydd lluosog gweler: www.oneatatime.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth am feichiogrwydd a genedigaethau lluosog, gweler: www.multiplebirths.org.uk

Cynhyrchwyd y daflen ffeithiau hon gan Fertility Network UK ar y cyd â One at a Time a'r Gymdeithas Genedigaethau Lluosog.



INFOLINE
01424 732361

www.fertilitynetworkuk.org